PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 28 TACHWEDD 2023

Yn bressenol: Gavin McArthur(Cadeirydd)

David Price, Dr. Janet Wademan, Chris Burns,

Cyng Carr, Lewis, Palmer a/ac Williams

40 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Goodway a Moultrie.

41 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y buddiannau canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Cynghorydd Williams | Eitem 4 | Rhagfarnus | Contract gyda'r Cyngor ar gynllun prydlesu rhent preifat |
| Y Cynghorydd Williams | Eitem 5 | Personol | Mae aelod o'r teulu yn gweithio i'r Cyngor |
| Y Cynghorydd Palmer | Eitem 5 | Personol | Mae aelod o'r teulu yn gweithio i'r Cyngor |

42 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2023 gan y Pwyllgor fel gwir gofnod a'u llofnodi gan y Cadeirydd, yn amodol ar y diwygiadau canlynol:

Eitem 26 - Diwygio dyddiad cofnodion y cyfarfod blaenorol a gymeradwywyd o 11 Gorffennaf 2022 i 11 Gorffennaf 2023

Tudalen 8 – diwygio:

Cafodd yr Aelodau sicrwydd bod camau gweithredu a mesurau lliniaru wedi'u rhoi ar waith a gofynnon nhw a oedd yr Awdurdod o'r farn bod lefel dderbyniol o achosion o dwyll yng Nghaerdydd. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud ei bod yn anodd gwybod beth oedd lefel dda o achosion o dwyll ond roedd yn rhywbeth y dylai'r Awdurdod fod yn gofyn iddo'i hun ac yn myfyrio arno.

i ddweud:

Cafodd yr Aelodau sicrwydd bod camau gweithredu a mesurau lliniaru wedi'u rhoi ar waith a gofynnon nhw i’r swyddogion fyfyrio ar lefelau twyll yng Nghaerdydd.

43 : DIWEDDARIAD AR AMGYLCHEDD RHEOLI’R GYFARWYDDIAETH POBL A CHYMUNEDAU

*Datganodd y Cynghorydd Williams fuddiant rhagfarnus yn yr eitem hon gan fod ganddo gontract gyda'r awdurdod dan y Cynllun Prydlesu Rhent Preifat.*

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amgylchedd rheoli o fewn y gyfarwyddiaeth Pobl a Chymunedau. Croesawodd y Cadeirydd Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau i'r cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r gyfarwyddiaeth ac yn nodi'r gofynion gwasanaeth allweddol yr oedd y gyfarwyddiaeth yn eu hwynebu. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar feysydd y gyfarwyddiaeth nad oeddent yn cael eu goruchwylio gan y Cyfarwyddwr Oedolion, Tai a Chymunedau na'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant yr oedd y ddau ohonynt wedi mynd i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o'r blaen i roi sicrwydd ar eu meysydd cyfrifoldeb.

Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o wasanaethau'r gyfarwyddiaeth a'i threfniadau llywodraethu. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod trefniadau rheoli perfformiad cryf ar waith gan gynnwys adroddiadau perfformiad chwarterol sy'n trafod dangosyddion perfformiad allweddol (DPA), cynllun corfforaethol ac amcanion cynllun cyflawni'r gyfarwyddiaeth. Caiff perfformiad ei adolygu'n rheolaidd yn fewnol a chaiff perfformiad hefyd ei fonitro'n chwarterol mewn gwahanol Bwyllgorau Craffu. Caiff monitro pellach ei wneud mewn cyfarfodydd sicrwydd yr Uwch Dîm Rheoli a'r gyfarwyddiaeth. Caiff perfformiad unigol ei fonitro drwy Adolygiadau Personol ac mae'r gyfarwyddiaeth yn gweithredu dull cadarn o sicrhau bod Adolygiadau Personol yn cael eu cynnal.

Roedd yr adroddiad hefyd yn grynodeb o ddull y gyfarwyddiaeth o ymdrin â threfniadau llywodraethu, rheoli perfformiad, ymgysylltu archwilio mewnol, rheoli risg a sicrwydd allanol.

Yn dilyn y cyflwyniadau gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, dechreuodd y Cadeirydd y drafodaeth ar yr eitem hon. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Croesawodd Aelod y gwaith o fapio'r partneriaethau rhwng yr awdurdod a chyrff eraill a nodwyd yn yr adroddiad. Gofynnwyd i'r swyddogion ymhelaethu ar y camau nesaf yn y broses honno - yn enwedig lle gellir gwella prosesau a pherthnasau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei fod wedi bod yn ymarfer gwerthfawr o ran deall gweledtedd y trefniadau gwaith partneriaeth. Mae'r dasg wedi helpu'r swyddogion i ddeall y nifer sylweddol o faterion y mae pob sefydliad yn ceisio eu datrys sy'n gymhleth ac y gellir eu datrys dim ond trwy gydweithio. Roedd cryn ddyblygu - er enghraifft, mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi nodi materion sy'n ymwneud â'r un meysydd. Er bod modd sefydlu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen o fewn y partneriaethau hynny - roedd yn bwysig mapio'r atebolrwydd, y cyfrifoldebau a lle mae'r gweithgareddau hynny'n cael eu cynnal, gan alluogi rhannu gwybodaeth a gostyngiad mewn dyblygu. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol o'r farn ei bod yn bwysig i bob corff gadw ei gyfrifoldebau gwneud penderfyniadau ei hun, ond byddai alinio'r gweithgareddau hynny'n galluogi dull mwy cydlynol o ymdrin â phroblemau a rennir.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y matrics risgiau a gyflwynwyd yn yr adroddiad. Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw ganllawiau cyffredinol ar gyfer cofrestrau risgiau

ac asesu risgiau cyfarwyddiaeth. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risgiau'n nodi canllawiau ar gyfer mesur, adrodd ac ymateb i risgiau ar draws yr awdurdod. Mae'r dull gweithredu'n safonol i gefnogi defnydd cyson ar bob lefel.

- Gofynnodd Aelod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol wneud sylwadau ar yr heriau a wynebir a'r atebion a weithredwyd o ran yr amgylchedd rheoli o fewn y Gyfarwyddiaeth o ystyried bod sbectrwm mor eang o wasanaethau o fewn y Gyfarwyddiaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod dau Gyfarwyddwr o fewn y Gyfarwyddiaeth ar gyfer y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Oedolion yn y drefn honno. Mae'r Cyfarwyddwyr hynny yn cyflawni eu cylch gwaith cyfan gan gynnwys yr amgylchedd rheoli. Mae lefel sylweddol o sicrwydd mewn perthynas â phob un o'r rhannau hynny o'r Gyfarwyddiaeth ehangach. Mae Uwch Dîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth yn cyfarfod bob pythefnos i drafod materion a lle nodir heriau, rhoddir dull gweithredu ar y cyd ar waith i fynd i'r afael â nhw. Mae'r adroddiad yn nodi nifer o heriau sylweddol i'r Gyfarwyddiaeth, gan gynnwys y galw cynyddol am wasanaethau, y bydd angen mynd i'r afael â nhw'n gyflym. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol o'r farn bod y trefniadau llywodraethu da ar waith a bod yr Uwch Dîm Rheoli yn gallu ymateb yn gyflym i faterion sy'n dod i'r amlwg.

- Gofynnodd Aelod sut y cafodd y 'wybodaeth' a fuddsoddwyd o fewn y Gyfarwyddiaeth ei rheoli a'i defnyddio er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a chreu gwydnwch ar gyfer y dyfodol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod cynaliadwyedd a datblygiad rheolwyr y dyfodol yn ystyriaeth allweddol i'r Gyfarwyddiaeth. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn falch o'r buddsoddiad y mae'n ei wneud yn ei staff ac mae'n awyddus i sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o reolwyr yn cael eu datblygu 'yn fewnol', yn ogystal â denu talent o'r tu allan i'r sefydliad. Derbyniwyd bod heriau o ran recriwtio ar gyfer rhai proffesiynau o fewn y Gyfarwyddiaeth ac felly bu ffocws sylweddol ar ddatblygiad. Ar ben hynny, mae'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn galluogi pobl o wahanol ddisgyblaethau gydweithio ar ddatrys problemau a deall yr heriau sy'n wynebu gwahanol wasanaethau.

- Dywedodd Aelod fod Comisiynydd newydd y Gymraeg yn mabwysiadu gwahanol ddull o gyflawni yn erbyn Safonau'r Gymraeg, yn enwedig mewn meysydd lle mae technoleg TG wedi datblygu. Gofynnodd yr Aelod beth oedd y Gyfarwyddiaeth yn ei wneud yn benodol i sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod Pennaeth Caerdydd Ddwyieithog yn mynd i gyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli yn rheolaidd ac yn rhoi adroddiadau rheolaidd o ran cydymffurfio â'r safonau. Mae gan y Gyfarwyddiaeth berthynas dda â'r Comisiynydd ac mae dealltwriaeth dda ynghylch cymhlethdodau cynnal rhai setiau data ar-lein. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol o'r farn y bu ymdrech sylweddol a pharhaus i sicrhau bod yr holl wasanaethau ar draws y Cyngor yn bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg.

- Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio fod cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn cael ei harchwilio a'i hymgorffori hefyd mewn archwiliadau thematig. Nid oedd

barn archwiliad Caerdydd Ddwyieithog tua dwy flynedd yn ôl yn anffafriol ac ystyriwyd bod y sefydliad yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn ddigonol.

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

44 : DIWEDDARIAD ARIANNOL YN CYNNWYS MATERION GWYDNWCH

*Datganodd y Cynghorydd Palmer a'r Cynghorydd Williams fuddiannau personol yn yr eitem hon dan y Cod Ymddygiad Aelodau gan fod aelodau o'r teulu yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod.*

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a'r Swyddog Adran 151, Chris Lee, ddiweddariad ariannol ar faterion gwydnwch a'r heriau ariannol sy'n wynebu'r awdurdod, gan gynnwys sefyllfa Mis 6 a'r gwaith o baratoi cyllideb 2024/25.

- Gofynnodd Aelod a yw nifer o senarios posibl yn cael eu modelu o ran ffigur y setliad refeniw. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod ystod o senarios yn cael eu modelu a bod y swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru drwyddi draw. Rhoddwyd hysbysiad o setliad dangosol ar gyfartaledd o 3.1% ar gyfer 2024/25 ar gyfer pob awdurdod lleol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Byddai Caerdydd yn rhagweld bod yn uwch na'r cyfartaledd o 3.1%.

- Nododd Aelod y swm sylweddol o arian i'w dynnu o gronfeydd wrth gefn sydd wedi'i ymgorffori yn sefyllfa'r gyllideb. Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a wnaed modelu i ddeall pa mor hir y byddai'r cyfraniad hwn yn gynaliadwy o ystyried bod cronfeydd wrth gefn yn gyfyngedig. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod y defnydd o gronfeydd wrth gefn wedi'i gynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r defnydd o gronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn bresennol yn gwrthbwyso'r sefyllfa bresennol a chlustnodwyd y cronfeydd wrth gefn hynny ar gyfer meysydd allweddol fel gofal cymdeithasol oedolion, gwasanaethau plant ac ailgylchu. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau o'r farn bod angen gwahaniaethu clir rhwng y gyllideb sylfaenol a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn. Pan ddefnyddir cronfeydd wrth gefn i lenwi bwlch yn y gyllideb, yna mae angen dod o hyd i'r gwariant hwnnw yn y blynyddoedd dilynol. Nid yw'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, yn hollbwysig, yn gynaliadwy ac ni fyddai'n cael ei gefnogi yn y tymor hwy.

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

45 : STRATEGAETH ATAL TWYLL A LLYGREDD A PHOLISÏAU GWEITHREDOL - DIWEDDARIAD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a gyflwynwyd gan y Rheolwr Archwilio, Chris Pyke, gan roi cyfle i'r Aelodau ystyried diweddariadau cynyddrannol a wnaed i'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd a chyfres o ddogfennau atal twyll gweithredol.

Roedd gan y diweddariadau statws drafft ac roedd disgwyl iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet gyda chais am gymeradwyaeth.

Rhoddwyd gwybod i’r Aelodau fod y Cyngor yn gyfrifol am ddiogelu pwrs y wlad trwy weinyddu a rheoli asedau ac arian y wlad yn iawn. Cost twyll i’r sector cyhoeddus yw tua £50.2 biliwn bob blwyddyn, ac o’r cyfanswm hwn, mae £8.8 biliwn yn benodol yn y llywodraeth leol. Cyflwynwyd a chymeradwywyd Strategaeth Atal Twyll a Llygredd gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2019 i gydlynu'r fframwaith polisi atal twyll ac amlinellu'r dull strategol o fynd i'r afael â thwyll ar draws y sefydliad.

Mae'r Strategaeth yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad arfer gorau gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) ac mae hefyd yn seiliedig ar wybodaeth arfer gorau am natur a rheolaeth risgiau twyll a enillwyd trwy swyddogion atal twyll arweiniol yn cymryd rhan mewn rhwydweithio parhaus fel Core Cities UK, Prif Archwilydd Cymru a Grwpiau Ymchwilwyr Cymru.

Trafodwyd y diweddariadau gydag Undebau Llafur y Cyngor ym mis Tachwedd 2023, ac mae'r holl ddogfennau wedi'u cefnogi gan Asesiadau Effaith Sengl gydag ymgysylltiad Tîm Cydraddoldeb y Cyngor a Chaerdydd Ddwyieithog. Mae unrhyw sylwebaeth ac arweiniad a gafwyd drwy'r prosesau hyn hyd yma yn cael eu hystyried yn y strategaeth ddrafft.

Mae'r Strategaeth ddiwygiedig ddrafft (Atodiad A) wedi'i diweddaru i ymgorffori'r diweddariadau cynyddrannol i fodelau, gwybodaeth ac arweiniad arfer gorau fel y cyfeirir atynt uchod. Y prif ddiweddariadau o'r diweddariadau drafft i'r Strategaeth yw:

- Goruchwylio Gwell
- Adolygiadau Sicrwydd
- Cyfathrebu
- Hyfforddiant - Hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll gorfodol wedi'i loywi ar gyfer 2024/25 i gefnogi'r holl staff.

Mae templed y Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer ysgolion hefyd wedi'i ddiweddaru a gwneir trefniadau i ymgysylltu â Phenaethiaid ysgolion a Chadeiryddion Llywodraethwyr i amlinellu'r diweddariadau, rhoi arweiniad perthnasol a chymeradwyo mabwysiadu'r Strategaeth gan Gyrff Llywodraethu priodol.

Yn ogystal â diweddaru'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd, mae'r dogfennau gweithredol canlynol wedi bod yn destun adolygiad a diweddariad cynyddrannol yn unol ag arferion gorau ac fe'u rhoddir i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i’w hystyried ac i wneud sylwadau arnynt:

- Polisi Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd
- Cynllun Ymateb i Dwyll
- Gweithdrefn Sancsiynau
- Gweithdrefn Cyhoeddusrwydd

PENDERFYNWYD: bod y Pwyllgor yn nodi’r diweddariadau drafft i’r Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd a'r dogfennau atal twyll gweithredol.

46 : Y TÎM YMCHWILIO AC ARCHWILIO - DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio’r adroddiad cynnydd chwarterol gan roi i’r Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am waith a pherfformiad y Timau Ymchwilio ac Archwilio Mewnol. Roedd yr adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2023.

Gofynnwyd i'r Rheolwr Archwilio wneud sylw ar y cynnydd sydyn mewn ymchwiliadau yn y gwasanaeth Tai. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod y cynnydd o ganlyniad i ryddhau gwybodaeth paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ystod y cyfnod.

Gofynnodd Aelod a oedd angen mwy o eglurder o ran datganiadau buddiannau a chyflogaeth eilaidd swyddogion, yn enwedig o ran yr amgylchiadau pan fyddai gofyn i swyddog ddatgan buddiant. Dywedodd y Rheolwr Archwilio ei bod yn bwysig i swyddogion ddeall eu cyfrifoldebau a chofnodi buddiannau'n gywir. Mae datganiadau buddiannau a datganiadau rhoddion a lletygarwch wedi ffurfio rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth o Dwyll ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddigideiddio'r broses ddatgan.

Gofynnodd Aelod i'r Rheolwr Archwilio wneud sylwadau ar y rhesymeg dros gais y rheolwyr i ddyrannu adnodd ychwanegol i faes rheoli’n ariannol Ystâd Annomestig Ysgolion a’r Cyngor. Dywedodd y Rheolwr Archwilio nad oes unrhyw risgiau na datguddiadau hysbys, ond mae'r cais yn dilyn ystyriaeth gydag uwch swyddogion perthnasol ac archwilio.

PENDERFYNWYD -

(1) bod yr adroddiad yn cael ei nodi

(2) cymeradwyo'r diwygiad yn ystod y flwyddyn arfaethedig, i ychwanegu ymgysylltiad archwilio sicrwydd sef 'atgyweiriadau a chynnal a chadw adeiladau' i'r Cynllun Archwilio.

47 : CYNGOR CAERDYDD - CYNLLUN ARCHWILIO MANWL 2023

Croesawodd y Cadeirydd Sara-Jane Byrne a Julie Rees o Archwilio Cymru i'r cyfarfod. Cyflwynodd Archwilio Cymru Gynllun Archwilio Manwl 2023. Roedd y cynllun yn nodi'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn mewn tri phrif faes - y Datganiad Cyfrifon archwiliedig, yr adolygiad o drefniadau gwerth am arian a chydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Roedd y Cynllun hefyd yn nodi'r materoldeb a fydd yn cael ei fabwysiadu ar gyfer yr archwiliadau craidd a grŵp; meysydd risg a ffocws a nodwyd; amserlen y gwaith; a dadansoddiad o'r ffi archwilio.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r risgiau allweddol a'r meysydd ffocws allweddol a nodwyd yn y Cynllun. Ymhellach, gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r cynnydd yn y ffi yn ymwneud â chyflwyno'r safon ISO315 newydd. Nodwyd y newidiadau allweddol o ISO315 mewn atodiad i'r adroddiad. Rhoddodd Julie Rees grynodeb o'r newidiadau.

Rhoddodd Sara-Jane Byrne drosolwg o'r rhaglen archwilio perfformiad gan gynnwys dau adolygiad thematig ar gynaliadwyedd ariannol a chomisiynu a rheoli contractau. Bydd adolygiad lleol ar y Priffyrdd a Thrafnidiaeth hefyd yn cael ei gynnal.

Cyfeiriodd Aelod at sylwadau blaenorol a wnaed ynghylch adroddiad y Cynllun Archwilio ac, yn benodol, ceisiadau a wnaed am ddadansoddiad o'r ffioedd a manylion sut y bydd swyddogion Archwilio Cymru yn cael eu defnyddio ar draws yr archwiliadau.  Gofynnodd yr Aelod hefyd am ddadansoddiad o'r costau ychwanegol y cyfeirir atynt mewn perthynas â'r cynnydd mewn ffioedd mewn perthynas ag ymgymeriadau ar gyfer y safon ISO315 newydd.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelod roi manylion ysgrifenedig mewn perthynas â'r fformat ar gyfer y dadansoddiad o ffioedd y gofynnwyd amdano.  Cefnogodd yr Aelodau y cais am y dadansoddiad o ffioedd ac roeddent o'r farn y byddai hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r Pwyllgor o ran gwerth am arian.  Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod proses ymgynghori ar waith o ran y ffioedd.

Gwnaeth Archwilio Cymru addo i gyflwyno dadansoddiad o'r ffioedd, fel y gofynnwyd amdano, a hefyd i gyflwyno rhywfaint o wybodaeth ychwanegol o ran sut y cyfrifir ffioedd, meincnodi data a manylion y broses ymgynghori.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, cadarnhaodd Archwilio Cymru fod yr archwiliad o gyfrifon ariannol ar y gweill a'i fod i gael ei gwblhau ym mis Ionawr 2024.  Mae'r archwiliad yn cael ei gwblhau'n hwyrach nag mewn blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i bwysau adnoddau mewnol.

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

48 : RHEOLI RISGIAU CORFFORAETHOL 2023/24 (CANOL Y FLWYDDYN)

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a gyflwynwyd gan y Pennaeth Cyllid, Ian Allwood, ar y sefyllfa rheoli risgiau yn chwarter dau 2023/24 ac a oedd yn tynnu sylw at newidiadau o'r adroddiad blaenorol.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod diweddariad wedi'i roi ar y sefyllfa concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth a'r risgiau cysylltiedig, fel y gofynnwyd amdano.  Hefyd, fel rhan o'r broses o uwchgyfeirio risgiau, ystyriwyd risg y Gyfarwyddiaeth mewn perthynas â sicrhau ymateb effeithiol i'r cynnydd cynyddol mewn digartrefedd. Cynigiwyd y bydd y risg hon yn cael ei hychwanegu at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol o Chwarter 3 er mwyn sicrhau goruchwyliaeth gorfforaethol o'r risg bosibl hon.

Mae gweithgor rheoli risgiau Dinasoedd Craidd wedi'i sefydlu'n ddiweddar, ac mae'r tîm rheoli risgiau'n cymryd rhan yn y grŵp hwn. Bydd y darn cyntaf o waith i'w wneud yn gymhariaeth o Risgiau Corfforaethol pob dinas. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Nododd Aelod fod cyllid allanol wedi'i sicrhau i ariannu swydd newydd yn ymwneud â'r risg newid hinsawdd a lleihau carbon.  Gofynnodd yr Aelod a oedd lle i sicrhau cyllid allanol ychwanegol o ffynonellau eraill.  Cytunodd y Pennaeth Cyllid i roi adborth i'r Aelodau ynghylch hyn cyn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd Aelod fod nifer o'r risgiau corfforaethol a nodwyd yn y gofrestr risgiau yn gyffredinol yn symud yn araf tuag at eu targed risg a'u bod yn aml mewn cyflwr

cyson. Gofynnwyd i'r swyddogion ystyried proffil newid ar y gofrestr risgiau dros y tymor canolig i'r hirdymor fel ffordd o herio rheolaeth o ran symud y risgiau hynny ymlaen. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod y gofrestr risgiau'n cael ei chyflwyno i Uwch Dîm Rheoli'n chwarterol a bod y risgiau sydd mewn cyflwr cyson yn cael eu hamlygu. Derbyniodd y Pennaeth Cyllid y pwynt a chytunodd i ystyried y mater ymhellach, yn enwedig a ddylid rhannu'r risgiau o ran y rhai y mae'r Uwch Dîm Rheoli'n ceisio eu symud ymlaen a'r rhai y mae angen eu cadw mewn cyflwr cyson.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid hefyd fod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda chydweithwyr yn y Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd gyda'r bwriad o gyfuno eu Risgiau Newid Hinsawdd yn un naratif mwy craff, wedi'i dargedu'n fwy.

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

49 : RHEOLI TRYSORLYS – ADRODDIAD HANNER BLWYDDYN

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a gyflwynwyd gan RhG Rheolwr Cyfrifeg - Cyfalaf, Anil Hirani yn manylu ar weithgareddau rheoli Trysorlys y Cyngor ers 1 Ebrill 2023 a'r sefyllfa ar 30 Medi 2023.

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

50 : CAMAU ETO I'W CYFLAWNI

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

51 : GOHEBIAETH

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

52 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

53 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim eitemau brys.

54 : RHEOLI GWASTRAFF - DIWEDDARIAD ÔL-DREIAL

Derbyniodd y Pwyllgor friff cyfrinachol yn rhoi manylion am ymchwiliad ar raddfa fawr yn y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff yn dilyn arestio wyth unigolyn ac ymchwiliad troseddol dilynol.

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

55 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 23 Ionawr 2024.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.13 pm